Dysgu Gydol Oes yn y DU

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Lifelong Learning UK

Skills for Learning Professionals

**Dysgu Gydol Oes yn y DU yn cyflwyno gwobr datblygu staff TG i'r HSBC**

Ddydd Iau 5 Ionawr cafodd seremoni flynyddol Gwobrau Hyfforddiant TG ei chynnal yng Ngwesty'r Dorchester yn Park Lane Llundain. Mae'r Gwobrau yn cydnabod sgiliau a chyflawniadau hyfforddwyr TG proffesiynol, p'un a ydynt yn ddarparwyr preifat, neu'n dimau mewnol corfforaethol, elusennol a sector cyhoeddus.

Cafodd y wobr am Raglen Datblygu Staff y flwyddyn ei noddi gan Dysgu Gydol Oes yn y DU, y cyngor sgiliau sector dros gyflogwyr dysgu gydol oes, a chyflwynodd y Prif Weithredwr David Hunter y wobr i dîm TG Bancio a Marchnadoedd Byd-eang HTS HSBC. Wrth wneud y cyflwyniad, canmolodd Hunter hyfforddwyr TG sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau a hyrwyddo proffesiynoli eu hymarfer, a sut mae hyn yn ei dro yn ysgogi'r gydnabyddiaeth mae'r diwydiant erbyn hyn yn ei haeddu.

Dwedodd David Hunter: "Mae technoleg gwybodaeth yn swyddogaeth sy'n gritigol i fusnes i bawb y dyddiau hyn ac mae ar fusnesau angen i'w pobl ddeall a defnyddio eu TG yn effeithiol. Mae'n braf gweld ymroddiad ac ymrwymiad hyfforddwyr TG proffesiynol yn cael eu cydnabod

**Lifelong Learning UK presents HSBC with IT staff development award**

Thursday 5th January saw the annual IT Training Awards ceremony at the Dorchester Hotel in London's Park Lane. The Awards recognise the skills and achievements of professional IT trainers, whether private providers, or corporate, charity and public sector in-house teams.

The award for Staff Development Programme of the year was sponsored by Lifelong Learning UK, the sector skills council for lifelong learning employers, and CEO David Hunter presented the award to the HSBC HTS Global Banking and Markets IT team. In making the presentation Hunter applauded IT trainers who have worked hard to gain and promote the professionalisation of their practice, and how this in turn drives the recognition that the industry now deserves.

David Hunter said: "IT is a business-critical function for everybody these days and businesses need their people to understand and use their IT effectively. It is great to see the dedication and commitment of professional IT trainers acknowledged through awards such as these,

drwy wobrau fel y rhain, sy'n anfon neges glir iawn am rôl hyfforddwyr TG proffesiynol fel rhan o'r sector dysgu gydol oes."

Disgleiriodd y rhaglen fuddugol uwchlaw'r cystadleuwyr eraill oherwydd ei phwyslais nid yn unig ar hyfforddi pobl, ond am greu newid drwy gydol y gweithrediad. Wrth longyfarch tîm TG Bancio a Marchnadoedd Byd-eang HTS HSBC, dwedodd y beirniaid: "Mae graddfa'r rhaglen hon, a'r gefnogaeth sydd ganddi oddi wrth yr uwch dîm rheoli, ill dwy yn eithriadol. Mae'r prosiect wedi dangos llawer o fuddion gan gynnwys cadw staff, gostyngiad mewn costau, boddhad cwsmeriaid, cydweithrediad, a chefnogaeth cymheiriaid. Mae hyn yn ddysgu ar waith o ddifrif - nid dim ond mewn theori."

Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU yn annog mentrau yn y sector TG a Chyfathrebu, wedi eu harwain gan Sefydliad Hyfforddiant TG gyda Chymdeithas Cyfrifiaduron ac eSgiliau Prydain, sy'n sicrhau bod y sector TG a Chyfathrebu yn gallu dweud bod gan hyfforddwyr, athrawon, tiwtoriaid a rheolwyr hyfforddiant y cymwysterau a'r safonau galwedigaethol a gâi eu cydnabod yn rhai proffesiynol ar gyfer eu rôl mewn unrhyw sector arall.

DIWEDD

which send a very clear message about the role of professional IT trainers as part of the lifelong learning sector."

The winning programme shone above its competitors for its emphasis not just on training people, but for inducing change throughout the operation. In congratulating the HSBC HTS Global Banking and Markets IT Team, judges said: "The sheer scale of this programme, and the senior management support that it has, are both remarkable. The project has demonstrated many benefits including retention, reduction in costs, customer satisfaction, collaboration, and peer support. This is real action learning – not just theory."

Lifelong Learning UK encourages initiatives in the IT and Communications sector, led by the Institute of IT Training with the British Computer Society and eSkills, that ensure that the IT and Communications sector can say that trainers, teachers, tutors and training managers have the qualifications and occupational standards that would be recognised as professional for their role in any other sector.

ENDS

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Skills for Learning Professionals

**Nodiadau i Olygyddion:**
Am fwy o wybodaeth am y Gwobrau Hyfforddiant TG, ewch i: http://www.ittrainingawards.co.uk

**Ynghylch Dysgu Gydol Oes yn y DU**

- Mae Dysgu Gydol Oes yn y DU yn aelod o Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector, ac yn un o 25 Cyngor Sgiliau Sector sy'n rhan o'r Rhwydwaith Sgiliau ar gyfer Busnes – pob un yn gorff annibynnol a arweinir gan gyflogwyr. Gweler: www.lluk.org
- Ein nod yw annog athrawon, hyfforddwyr, llyfrgellwyr a staff eraill i ennill sgiliau a chymwysterau newydd fel eu bod yn cynnig gwasanaeth gwell i bobl ifanc, oedolion sy'n dysgu, cyflogwyr a'r gymuned ehangach
- Rydym hefyd yn hyrwyddo dysgu gydol oes fel gyrfa fel bod gan gyflogwyr yn y sector lai o anhawster wrth recriwtio a chadw staff
- Yn ogystal â datblygu safonau a fframweithiau cymwysterau ar gyfer y sector cyfan, rydym hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn i gyflogwyr dysgu gydol oes nodi bylchau a phrinderau sgiliau ymhlith eu gweithlu eu hun

**Notes to Editors:**
For more information about the IT Training Awards, please visit: http://www.ittrainingawards.co.uk

**About Lifelong Learning UK**

- Lifelong Learning UK is a member of the Alliance of Sector Skills Councils, and is one of 25 Sector Skills Councils that make up the Skills for Business Network - each one is an employer-led, independent organisation. See: www.lluk.org
- We aim to encourage teachers, trainers, librarians and other staff to gain new skills and qualifications so that they offer a better service to young people, adult learners, employers and the wider community
- We also promote lifelong learning as a career so that employers in the sector have less difficulty recruiting and retaining staff
- In addition to developing sector-wide occupational standards and qualifications frameworks, we also produce labour market intelligence so that lifelong learning employers can identify skills gaps and shortages among their own workforce